**Cyfarfod Llawn 2001-2002 (60)**

**Dydd Mawrth, 16 Ebrill 2002**

**AGENDA**

**Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 2**
**Datganiad: Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Thai ar Gyfarwyddyd ar Ymestyn Categorïau Pobl Ddigartref yr Ystyrir eu bod mewn Angen Blaenoriaethol**

**Eitem 3**
**Datganiad Busnes: Y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad**
Cliciwch yma am y Datganiad Busnes Drafft

**Eitem 4**
**Ymgynghori ar Orchymyn Diwygio Rheoliadol Adnewyddu Tai yn y Sector Preifat**
**NDM1024 -** Mae'r Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn unol â darpariaethau Rheol Sefydlog 24, yn cymeradwyo'r *Regulatory Reform (Housing Assistance)(England and Wales) Order 2002* drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Ebrill 2002.

2. Yn unol ag adran 1(5) y *Regulatory Reform Act 2001* yn cytuno y dylid gwneud Gorchymyn ar ffurf y drafft.

Gellir clicio ar y cysylltiadau isod i weld adroddiadau Pwyllgorau Craffu T'r Cyffredin a Th'r Arglwyddi ar gam cyntaf y broses graffu Seneddol ar y Gorchymyn Diwygio Rheoliadol a chopi o'r *Regulatory Reform Act 2001*:

http://www.publications.parliament.uk/pa/ld200102/ldselect/lddelreg/92/9202.htm - Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr
http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200102/cmselect/cmdereg/663/66302.htm - Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr
http://www.hmso.gov.uk/acts/acts2001/20010006.htm - Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r

Siambr

Cliciwch yma i weld y *Regulatory Reform (Housing Assistance)(England and Wales) Order 2002* - Explanatory Memorandum - Ar gael yn Saesneg yn unig
Cliciwch yma i weld y *Regulatory Reform (Housing Assistance)(England and Wales) Order 2002* - Ar gael yn Saesneg yn unig

**Eitem 5**
**Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau'r Ddeddf Digartrefedd - *mae'r eitem hon wedi cael ei gohirio***

**Eitem 6**
**Adroddiad Grant Arbennig ar ffyrdd arloesol o gyflwyno addysg mewn amgylchedd gwledig ac i gynorthwyo awdurdodau lleol i baratoi data nifer disgyblion unigol - *mae'r eitem hon wedi cael ei gohirio***

**Eitem 7**
**Dadl ar Bolisi Cefnogi Pobl (Dadl ar y polisi newydd ar gyfer fframwaith cyllido ar gyfer gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai)**
**NDM1025 -** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn:

1. Croesawu *Supporting People in Wales*, fel cam arwyddocaol ymlaen o ran darparu gwasanaethau cymorth ar sail llety i helpu pobl sy'n agored i niwed i fyw'n annibynnol;

2. Cadarnhau'r egwyddor o weithio mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol fel sail i lwyddiant yn y maes polisi hwn;

3. Ailbwysleisio pa mor bwysig yw cynnwys defnyddwyr y gwasanaethau eu hunain wrth ddatblygu'r gwaith hwn.

Gellir gweld copi o *Supporting People in Wales* ar y Rhyngrwyd drwy glicio isod:
http://assembly/housing/Supporting%20People/supporting_people_home-e.htm - Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:*

(1)+(3)+(4)+(5)
(2)

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 2:
ac yn galw ar y Gweinidog i annog Awdurdodau Lleol i hybu arfer da trwy greu fforymau i swyddogion cynghorau a darparwyr gwasanaethau i drafod y gwasanaethau a ddarperir a ffyrdd o'u gwella.

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ar ôl pwynt 2, ychwanegu pwynt ac ailrifo'r pwyntiau sy'n weddill yn ôl y gofyn:
Sicrhau bod pawb cymwys yn cael cyngor penodol digonol i'w galluogi i gael y gorau o'r cymorth sydd ar gael iddynt.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu at ddiwedd pwynt 3:
; ac yn cydnabod y gallai'r ansicrwydd ynghylch ariannu'r cynllun cymorth wedi 2006 arafu ei ddatblygiad rhwng 2003-06 a'i fod yn yn galw ar y Gweinidog i weithredu i rwystro hyn.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu fel pwynt newydd:
Galw ar y Gweinidog i lunio strategaeth a fydd yn sicrhau bod digon o arian ar gyfer mentrau traws-ffiniol, wedi trosglwyddo'r arian i Awdurdodau Lleol o 2006 ymlaen

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu fel pwynt newydd:
Galw ar y Gweinidog i gysylltu ymhellach â'r Ysgrifennydd Gwladol i argymell dileu'r cyfyngiad rhentu un ystafell ym Mudd-dâl Tai pobl ifanc.

**Eitem 8**
**Dadl ar yr adroddiad ar Iechyd Pobl Ifanc yng Nghymru 1986-2000**
**NDM1023 -** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn derbyn yr adroddiad *Young people in Wales: findings from the Health Behaviour in School-aged Children (HBSC) study 1986-2000*, a anfonwyd drwy'r e-bost at yr Aelodau ar ddydd Llun 8 Ebrill 2002;

2. Yn croesawu bwriad y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn i Is-bwyllgor Plant y Cabinet ystyried cynnwys yr adroddiad; ac

3. Yn nodi bod yr ystyriaeth hon yn arwain at gynllun gweithredu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn rhoi sylw i'r materion a godwyd yn yr adroddiad.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:*

(1)
(2)

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:
Yn credu bod hybu iechyd pobl ifanc yn fater o'r pwys mwyaf a'i fod felly yn cyfarwyddo'r Llywodraeth i baratoi cynllun gweithredu wedi'i gostio i roi sylw i'r materion a godir yn yr adroddiad, fel mater o frys.

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ar ddiwedd y cynnig, ychwanegu pwynt newydd:
Yn nodi â phryder y duedd ofidus ymhlith rhai pobl ifanc i fyw bywydau afiach, yn enwedig o safbwynt effeithiau smygu ac yfed alcohol.

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05 am ddydd Iau, 18 Ebrill 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**